

Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C
16 Mai 2013, S4C, Llanisien, Caerdydd

Cyfarfod Rhif 366

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
	Glenda Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod) [Eitemau 1-6]
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Garffild Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Kathryn Morris	(Cyfarwyddwr Cyllid)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Sarah-Jane Pritchard	(Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
Ymddiheuriadau:	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)

Sylwadau agoriadol

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth JD.

1. Datganiad o ddiddordeb

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. Cofnodion cyfarfod 365 a materion yn codi

2.1 Cofnodion cyfarfod 365

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 365.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.

2.2 Materion yn codi

Nodwyd y canlynol:

2.2.1 Cynllun Pensiwn Ofcom

[**Crynodeb:** Trafodwyd materion yn ymwneud â Chynllun Pensiwn Ofcom.]

2.2.2 [Crynodeb: Cyfeiriwyd at anghenion gwybodaeth yr Awdurdod.]

2.2.3 Adolygiad o berfformiad rhaglenni'r BBC yn 2012 o dan y Bartneriaeth Strategol

Nodwyd nad oedd cyfarfod gyda David Liddiment wedi ei gynnal hyd yma, ond roedd bwriad i geisio trefnu cyfarfod maes o law.

2.2.4 Mesuriadau Perfformiad

[**Crynodeb:** Mae'r swyddogion wedi cytuno mewn egwyddor gyda swyddogion Ymddiriedolaeth y BBC ar y mesur cyrhaeddiad 3 munud wythnosol fel y prif fesur cyrhaeddiad ar gyfer S4C.]

2.2.5 Cyllid DCMS

Nodwyd bod swyddogion yn parhau i drafod cyfnod ariannol S4C gyda swyddogion DCMS.

2.2.6 Ystyried Anghenion Gwybodaeth yr Awdurdod

[**Crynodeb:** Trafodwyd y wybodaeth a ddarperir i'r Awdurdod yn fisol.]

2.2.7 iPlayer – diweddariad

[**Crynodeb:** Mae'r cynllun wedi derbyn cymeradwyaeth gan bwyllgorau perthnasol materion strategol a golygyddol Ymddiriedolaeth y BBC. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â newidiadau angenrheidiol i broses gwynion y BBC.]

Esboniwyd bod y BBC wedi nodi y gallai presenoldeb S4C ar yr iPlayer gynnig cyfleoedd ychwanegol i S4C a'r BBC gydweithredu mewn prosiectau megis cynllun archif digidol (prynu a lawr lwytho) sy'n gysylltiedig gyda'r iPlayer. Croesawyd hyn gan yr Awdurdod.

2.2.8 Masnachol

Nodwyd y bydd y Pennaeth Datblygu Masnachol yn cyflwyno'r strategaeth fasnachol i'r Awdurdod ym mis Medi.

2.2.9 Hawliau Chwaraeon

[**Crynodeb:** Nodwyd bod Sky wedi ennill yr hawliau i ddarlledu gemau'r RaboDirect Pro12 ar ddydd Sadwrn. Cyflwynir strategaeth Chwaraeon newydd i'r Awdurdod maes o law.]

2.2.10 Canllawiau Iaith Rhaglenni

[**Crynodeb:** Cynigiwyd cyfarfod â Chylch yr Iaith i drafod eu llythyr ynglŷn â'r ymgynghoriad am y Cytundeb Gweithredu.]

3. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

3.1 **David Jones AS, Ysgrifennydd Gwladol Gymru**

Roedd y Cadeirydd ac IHJ wedi cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Cafwyd cyfarfod adeiladol a chynigodd David Jones geisio hwyluso cyfarfod gyda Maria Miller, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon.

3.2 **Yr Ŵyl Gyfryngau Celtaidd**

Llongyfarchodd y Cadeirydd GLL, is-gadeirydd pwyllgor trefnu'r ŵyl ar lwyddiant yr ŵyl yn Abertawe fis diwethaf.

3.3 **John Griffiths AC, y Gweinidog dros Ddiwylliant**

Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi cael cyfarfod adeiladol gyda'r Gweinidog dros Ddiwylliant newydd, John Griffiths.

3.4 **Y Comisiwn ar Ddatganoli**

Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i Gomisiwn Silk ynglŷn â datganoli darlledu wedi ei dderbyn ac y byddai tystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno cyn bydd y Cadeirydd yn cyflwyno tystiolaeth lafar ar 24 Mai. Bydd ECS hefyd yn mynychu'r sesiwn ar ran Ymddiriedolaeth y BBC.

4. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd IHJ ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

4.1 **Cynllun 5 mlynedd hyd at 2017 – Diweddariad**

Awgrymwyd y dylid cyflwyno diweddariad o'r cynllun ariannol pum mlynedd i'r Awdurdod ym mis Gorffennaf.

4.2 **Ariannol**

[**Crynodeb:** Penderfynwyd y dylid adrodd ar lif arian S4C fel rhan o'r adroddiad ariannol, ac y dylai'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ystyried ymhellach y polisi ar gyfer trosglwyddiadau a thanwariannau.]

4.3 **Yr Amserlen Newydd**

[**Crynodeb:** Lanswyd amserlen newydd S4C ar 22ain Ebrill. Croesawyd yr amserlen newydd gan yr Awdurdod a chanmolwyd diwyg **Newyddion 9**. Mewn Noson Gwylwyr yn Llanddarog cafwyd grwpiau oedran yn ymateb yn wahanol ar gwestiwn amser y rhaglen Newyddion. Bydd swyddogion yn parhau i fonitro'r perfformiad.]

4.4 **Adroddiad Fegan**

Cyflwynodd EM ddiweddariad am argymhellion adroddiad Fegan. Roedd swyddogion wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd cadarnhaol gyda TAC i drafod sut i'w gweithredu. Diolchwyd am y diweddariad a chafwyd trafodaeth am brif bwyntiau'r trafodaethau gyda TAC.

4.5 **Bwrdd y Bartneriaeth ar y cyd/Adleoli – diweddariad**

[**Crynodeb:** Mae gwaith y grŵp ar yr achos busnes yn parhau felly ni fydd cyflwyniad i'r Awdurdod tan fis Mehefin. Dewiswyd rhestr fer ac fe fydd swyddogion yn ymweld â phob ardal o fewn yr wythnosau nesaf er mwyn cynnal trafodaethau.]

4.6 **DCMS**

Nodwyd bod y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi danfon llythyr at Ysgrifennydd Gwladol DCMS yn cyfeirio at effaith toriadau posibl ar wasanaethau S4C fel rhan o broses y DCMS o baratoi ar gyfer yr Adolygiad Gwariant 2015-2016 sydd i'w gyhoeddi ar 26 Mehefin.

5. **Diweddariad ar y Gronfa Ddigidol**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd EM ddiweddariad ar fuddsoddiadau'r Gronfa Ddigidol. Cafwyd trafodaeth am y broses o gymeradwyo'r buddsoddiadau ac o sicrhau cydbwysedd rhwng amcanion masnachol y gronfa ac amcanion y gwasanaeth cyhoeddus.]

6. **Trafod Adroddiad Blynyddol 2012**

Cyflwynodd PW Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2012. Nodwyd nad oedd y Datganiad Ariannol wedi ei gynnwys ac y bydd hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

Cafwyd trafodaeth am fformat ac arddull yr adroddiad. Nodwyd y byddai cyflwyniadau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cael eu cynnwys yn dilyn cwblhau gweddill yr Adroddiad, gan wneud cyfeiriad perthnasol i benderfyniadau Adolygiad Gwariant fis Mehefin. Nodwyd y bydd y cyflwyniadau yn gyfle i gyflwyno ac ail-adrodd prif negeseuon yr Awdurdod.

Esboniwyd mai bwriad yr Adolygiad o Ansawdd oedd cynnig asesiad gwrthrychol o berfformiad gwasanaeth S4C yn 2012. Roedd hwn yn esblygiad o ffurf yr adroddiad a gyhoeddwyd y llynedd a oedd yn gam cyntaf yn y broses o gyflwyno asesiad yr Awdurdod o berfformiad gwasanaeth S4C ac mai bwriad yr esblygiad hwn oedd arwain at yr asesiad o berfformiad y bydd angen i'r Awdurdod ei gyflwyno i Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer 2013-14.

Cafwyd trafodaeth am gynnwys ac arddull yr adroddiad drafft ac awgrymwyd nifer o welliannau i'r adran Ansawdd. Nodwyd yn ogystal yr angen i sicrhau fod yr Adroddiad a'r Datganiad Ariannol maes o law yn cael eu cyflwyno gan ddefnyddio iaith glir ac addas.

Nodwyd bod yr adroddiad drafft yn ceisio rhoi darlun ehangach o berfformiad a defnydd y gynulleidfa o wasanaethau S4C yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys defnydd ar blatfformau digidol a chyfryngau cymdeithasol.

Yn dilyn y drafodaeth, penderfynwyd y bydd y Pwyllgor Cynnwys yn derbyn drafft pellach o'r adroddiad er mwyn iddynt ei ystyried ac y dylai Aelodau'r Awdurdod gyflwyno unrhyw awgrymiadau penodol i swyddfa'r Awdurdod.

7. **Adroddiad y Cyfarwyddwyr Cynnwys**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd DRh ei adroddiad ysgrifenedig. Yn ogystal â thynnu sylw at rai rhaglenni penodol cyfeiriodd at ddatblygiadau yn y maes digidol a llwyddiant y gynhadledd Creadigidol a gynhaliwyd ar Mai 9fed.]

8. **Adroddiad Ymchwil Misol**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd yr Adroddiad Ymchwil Misol. Cafwyd trafodaeth am gyrhaeddiad y gwasanaeth ac am ddatblygiadau yn y maes o fesur gwylio ar lein.]

9. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu**

9.1 Cyflwynodd GLL ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriodd at y materion isod:

9.2 Rhoddodd GLL ddiweddariad am yr ymgyrchoedd hyrwyddo. Roedd yr Adran Hyrwyddo wedi bod yn hyrwyddo'r amserlen newydd yn ogystal â gweithio ar ymgyrchoedd yn ymwneud â digwyddiadau'r Haf.

9.3 Nodwyd bod yr adran yn gweithio mewn partneriaeth gyda sawl sefydliad, megis Twf i ddsbarthu gwybodaeth am wasanaethau plant S4C. Fel rhan o'r strategaeth ymgyrchoedd cymunedol, cynhaliwyd penwythnos o ddigwyddiadau Cyw yn Fferm Folly a chafwyd ymateb cadarnhaol gyda dros 5,000 o ymwelwyr.

9.4 Yn ystod y pythefnos diwethaf, cynhaliwyd noson anffurfiol yng Nghlwb Rygbi Pontyberem gydag aelodau'r Clwb Rygbi a Chlwb Modur Cwm Gwendraeth a chynhaliwyd Noson Gwylwyr yn Llanddarog yr wythnos hon. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r ddwy noson, a bydd adroddiad o'r nosweithiau yn cael ei ddsbarthu maes o law.

10. **Adroddiad Ariannol**

Cyflwynodd KM yr adroddiad ariannol a chyfeiriwyd at y drafodaeth uchod am reoli a monitro llif arian a thanwariannau a throsglwyddiadau o flynyddoedd cynt.

11. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd AE adroddiad o ddau gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ym mis Ebrill.]

12. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth a Gwifren Gwylwyr**

Cyflwynwyd yr adroddiad cwynion.

Nodwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr gan yr Awdurdod.

13. **Unrhyw fater arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

14. **Pwnc Trafod – Ystyried “Gwerth” S4C**

Cyfeiriwyd at y papur arweiniol ar bwnc Ystyried Gwerth S4C a nodwyd mai prif bwrpas y sesiwn drafod oedd rhoi arweiniad ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol drafft. Gan fod yr Awdurdod eisoes wedi trafod yr adroddiad drafft

penderfynwyd nad oedd angen cynnal trafodaeth bellach am werth ar hyn o bryd, ond y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn parhau i ddatblygu ei raglen waith gwerth am arian ac yn adrodd arno i'r Awdurdod.

15. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Mehefin 2013 yng Nghaerdydd.